OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 773 (Cy. 196)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park, Casnewydd i Gylchfan Cwmbrân, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Gorffennaf 2016* |
| *Yn dod i rym* | *23 Gorffennaf 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A4042) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Gorffennaf 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park, Casnewydd i Gylchfan Cwmbrân, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 23 Gorffennaf 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn(au) o'r gefnffordd" ("*the length(s) of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Ninas Casnewydd a Bwrdeistref Sirol Torfaen a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Gorffennaf 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Grove Park, Casnewydd hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Croes-y-mwyalch, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Croes-y-mwyalch hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Crown, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Crown hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Turnpike, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Turnpike hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Edlogan Way, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Edlogan Way hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Cwmbrân, Torfaen.